



Proffil Hyfforddeiaeth Treftadaeth Ddiwylliannol

Swydd	Hyfforddai Uchelgais Ddiwylliannol
Cyfnod yr Hyfforddeiaeth	Cyfnod penodol mis Medi 2018 – mis Awst 2019
Oriau	30 awr yr wythnos (i gynnwys dysgu ar y safle a chwblhau gwaith coleg)
Taliadau Bwrsariaeth	£800 y mis
Rhanbarth	Gwynedd
Enw'r Mentor	Amgueddfa Lechi Cymru Archifdau Gwynedd Castell Caernarfon Storiell
Dyddiad	Mis Gorffennaf 2018

Trosolwg o'r Hyfforddiant

Mae'r rhaglen hyfforddiant hon yn gyfle cyffrous i berson ifanc sy'n dymuno dysgu am weithio mewn amgueddfeydd, cestyll, archifdai a lleoliadau treftadaeth ddiwylliannol. Bydd yr hyfforddai'n treulio 12 mis yn dysgu mewn tri lleoliad treftadaeth ddiwylliannol o fewn y rhanbarth, a bydd yn derbyn bwrsariaeth o £800 y mis am bob mis o'r hyfforddeiaeth. Bydd y rhaglen yn ymdrin ag amrywiaeth o sgiliau a fydd yn arwain at gymhwyster a mwy o sgiliau cyflogadwyedd.

Bydd yr hyfforddai'n fyfyrwr cofrestredig gyda Choleg Caerdydd a'r Fro a bydd yn ofynnol iddo gwblhau e-bortffolio o'i ddysgu a fydd yn cael ei asesu drwy gydol y flwyddyn leoliad.

Cymhwyster

Byddwch yn gweithio tuag at gymhwyster NVQ Lefel 2 mewn Treftadaeth Ddiwylliannol fel rhan o'r hyfforddeiaeth hon, a ddysgir yn y gwaith gyda chefnogaeth gan Goleg Caerdydd a'r Fro. Dyma deitlau'r unedau a astudir:

- Cynorthwyo gyda digwyddiadau a dulliau gweithredu mewn argyfwng
- Gweithio gyda chydweithwyr
- Cyfrannu at ofalu am adeiladau lleoliad diwylliannol
- Cynorthwyo cwsmeriaid, ymwelwyr neu gynulleidfaoedd i gael y gorau o'u profiad o sefydliad creadigol neu ddiwylliannol
- Cefnogi gweithgareddau dysgu mewn cyd-destun creadigol a diwylliannol
- Cefnogi gweithgareddau marchnata mewn cyd-destun creadigol a diwylliannol
- Hunaniaeth ac Amrywiaeth Ddiwylliannol



creative
& cultural
skills



Proffil Person

Rydym yn chwilio am rywun sydd ag angerdd a diddordeb gwirioneddol mewn dysgu o fewn y sector treftadaeth ddiwylliannol.

Canllawiau i hyfforddeion:

- Ni ddylent fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant tra cwblheir yr hyfforddeiaeth
- Dylent feddu ar gymhwyster TGAU mewn Cymraeg/Saesneg a Mathemateg, neu dystiolaeth o gyrhaeddiad cyfatebol, megis rhaglen datblygiad personol Ymddiriedolaeth y Tywysog, profiad gwaith neu Sgiliau Hanfodol Cymru
- Ni ddylent fod wedi graddio
- Mae'r gallu i ddarllen, ysgrifennu a chyfathrebu'n Gymraeg yn hanfodol

Sut i wneud cais:

I wneud cais, cwblhewch y ffurflen gais amgaeedig, gan gynnwys datganiad personol byr yn egluro pam fod gennych ddiddordeb gwneud cais am yr hyfforddeiaeth hon. Gall eich datganiad personol fod ar ffurf fideo neu'n ysgrifenedig. Ebost jo.esposti@ccskills.org.uk

Y dyddiad cau yw 5pm ar 31 Gorffennaf.

Noder mai ond nifer cyfyngedig o leoliadau hyfforddiant sydd ar gael.